# Y Cyfrifiad a Darparu Ystadegau o'r Boblogaeth yng Nghymru a Lloegr yn y Dyfodol: Argymhelliad gan yr Ystadegydd Gwladol a Phrif Weithredwr Awdurdod Ystadegau'r DU

**Mawrth 2014**

Am ragor o wybodaeth:

Chwiliwch Y Tu Hwnt i 2011 @ www.ons.gov.uk neu cysylltwch â: beyond2011@ons.gov.uk

© Hawlfraint y Goron 2014

# Y Cyfrifiad a Darparu Ystadegau o'r Boblogaeth yng Nghymru a Lloegr yn y Dyfodol: Argymhelliad gan yr Ystadegydd Gwladol a Phrif Weithredwr Awdurdod Ystadegau'r DU

## Cynnwys


1 Crynodeb gweithredol ..... 2

2 Cyflwyniad ..... 4

3 Parhad a newid ..... 5

4 Data gweinyddol ..... 6

5 Barn y cyhoedd, preifatrwydd a chyfrinachedd ..... 7

6 Yr ymgynghoriad cyhoeddus ..... 8

7 Yr adolygiad annibynnol o fethodoleg (Adolygiad Skinner) ..... 9

8 Argymhelliad ..... 11

Office for National Statistics

## 1 Crynodeb gweithredol

- Gofynnodd Awdurdod Ystadegau'r DU i'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) adolygu'r opsiynau ar gyfer darparu ystadegau o'r boblogaeth yn y dyfodol a chynnal y cyfrifiad nesaf yng Nghymru a Lloegr ar ôl i'r cyfrifiad blaenorol ddod i ben. Mae'r Alban a Gogledd Iwerddon yn cynnal eu hadolygiadau eu hunain.
- Lansiodd SYG Raglen Y Tu Hwnt i 2011 o waith ymchwil ac adolygu, gan gynnwys ymgynghoriad cyhoeddus mawr, ar ddiwedd 2013. Gellir gweld canlyniadau'r ymgynghoriad hwn yma.Aeth y Rhaglen ati i ystyried a chymharu dulliau amrywiol o gyfrif y boblogaeth, yma a thramor, ymgysylltodd â grŵp amrywiol o ddefnyddwyr, sylwebwyr a chyrff cyhoeddus, comisiynodd adolygiad annibynnol pwysig o fethodoleg (Adolygiad Skinner) a chynhaliodd ymchwil ansoddol a meintiol i agweddau'r cyhoedd tuag at y defnydd o ddata personol ar gyfer ystadegau.
- Nododd y Rhaglen ddau ddull gweithredu bras fel opsiynau ar gyfer y dyfodol:
  - Cyfrifiad ar-lein bob deng mlynedd yn lle'r cyfrifiad papur traddodiadol (yn 2011 bu modd ateb cwestiynau'r cyfrifiad ar lein am y tro cyntaf)
  - Ystadegau blynyddol o'r boblogaeth sy'n deillio o'r defnydd a'r ailddefnydd o ddata gweinyddol a ategir gan arolygon o gartrefi
- Mae cynnal cyfrifiad bob deng mlynedd yn ddibynadwy ac yn boblogaidd ar y cyfan. Mae defnyddwyr, boed yn gyhoeddus neu'n breifat, yn fach neu'n fawr, yn gwerthfawrogi'r manylion a ddarperir am ardaloedd bach a grwpiau bach o'r boblogaeth. Mae achyddion a haneswyr cymdeithasol yn gwerthfawrogi'r wybodaeth gyfoethog am genedlaethau'r dyfodol a ychwanegir bob tro y cynhelir cyfrifiad.
- Yn 2011, gwnaeth 16 y cant o ymatebwyr ddewis ymateb i gyfrifiad Cymru a Lloegr ar lein. Mae ein hymchwil yn awgrymu bod y cyhoedd yn barod i dderbyn cyfrifiad cwbl ar-lein, ar yr amod bod cymorth a chefnogaeth ar gael i'r rheini na allant neu na wnânt fynd ar lein.
- Mae gan y defnydd o ddata gweinyddol, sydd eisoes yn cael ei gasglu gan y cyhoedd at ddibenion penodol ac a gedwir gan y wladwriaeth, y potensial i wella cywirdeb, amlder ac effeithlonrwydd ystadegau o'r boblogaeth.
- Mae rhai o'n cymdogion rhyngwladol eisoes yn defnyddio data gweinyddol yn gyfan gwbl. Fodd bynnag, mae gan yr holl wledydd hyn gofrestr o'r boblogaeth er mwyn ategu hyn, ond nid dyma'r achos yng Nghymru a Lloegr. Mae llawer o wledydd yn dal i gynnal cyfrifiad bob deng mlynedd neu bob pum mlynedd.
- Gwnaeth Adolygiad Skinner o fethodoleg bennu risg isel i gynnal cyfrifiad ar lein, gan nodi y byddai'n esblygiad naturiol i'r cyfrifiad traddodiadol bob deng mlynedd ac yn adlewyrchu datblygiadau mewn mannau eraill.
- Pennodd Adolygiad Skinner risg uwch i ddefnyddio data gweinyddol, gan nodi'r problemau ynghlwm wrth amcangyfrif y boblogaeth mewn gwlad heb gofrestr o'r boblogaeth, a'r gofyniad blaenorol i wella'r broses o rannu data rhwng cyrff cyhoeddus sy'n cadw data personol a SYG.
- Argymhellodd Adolygiad Skinner y dylid cynnal rhagor o ymchwil i'r defnydd o ddata gweinyddol a nododd yr angen i SYG ddangos y gallai'r fethodoleg arfaethedig weithio. Nid oedd Skinner yn argymell y dylid ei gyflwyno yn lle cyfrifiad bob deng mlynedd eto.
- Fel Ystadegydd Gwladol a Phrif Weithredwr yr Awdurdod, wedi adolygu Rhaglen Y Tu Hwnt i 2011 yn ei chyfanrwydd o ran y cymariaethau rhyngwladol, yr ymchwil ystadegol ac Adolygiad Skinner, yr ymchwil i agweddau'r cyhoedd a'r ymatebion i'r ymgynghoriad cyhoeddus, mae fy argymhelliad i Fwrdd Awdurdod Ystadegau'r DU ynghylch darparu ystadegau o'r boblogaeth yn y dyfodol a chynnal y cyfrifiad nesaf fel a ganlyn:
  - Cyfrifiad ar-lein ar gyfer pob cartref a sefydliad cymunedol yng Nghymru a Lloegr yn 2021 fel olynydd modern i'r cyfrifiad papur traddodiadol bob deng mlynedd. Mae SYG yn cydnabod y byddai angen cymryd gofal arbennig i gefnogi'r rhai na allant lenwi'r cyfrifiad ar lein.

- Mwy o ddefnydd o ddata gweinyddol ac arolygon er mwyn gwella'r ystadegau o Gyfrifiad 2021 a gwella ystadegau blynyddol rhwng cyfrifiadau.

- Byddai hyn yn gwneud y defnydd gorau o'r holl ddata sydd ar gael er mwyn darparu ystadegau o'r boblogaeth sydd eu hangen ar Gymru a Lloegr a sbarduno mwy o ddefnydd o ddata gweinyddol ac arolygon blynyddol yn y dyfodol.
- Cynhelir rhagor o ymchwil dros y misoedd a'r blynyddoedd i ddod er mwyn pennu'r cyfuniad mwyaf priodol o ddulliau a ffynonellau data.
- Fodd bynnag, mae'n amlwg bod datblygu'r defnydd o ddata gweinyddol yn y dyfodol yn dibynnu ar gydsyniad y cyhoedd fel y'i mynegir drwy'r Senedd. Byddai angen deddfwriaeth rhannu data er mwyn sicrhau'r buddiannau mwyaf o hyn.

## 2 Cyflwyniad

Ym mis Mai 2010 a chyn y cyfrifiad yn 2011, gofynnodd Awdurdod Ystadegau'r DU i'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) ddechrau adolygu'r broses o ddarparu ystadegau o'r boblogaeth yng Nghymru a Lloegr yn y dyfodol er mwyn hysbysu'r Llywodraeth a'r Senedd am yr opsiynau ar gyfer y cyfrifiad nesaf. Ar ôl pob cyfrifiad, mae SYG yn adolygu'r ffordd y cynhaliwyd y cyfrifiad a pha wersi y gellid eu dysgu. Y tro hwn, gofynnodd yr Awdurdod gwestiwn mwy sylfaenol am y ffordd orau o ddarparu ystadegau o'r boblogaeth yn y dyfodol. Cynhelir adolygiadau ar wahân yn yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Mae cyfrif poblogaeth Cymru a Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon bob amser wedi bod yn bwysig i'r Llywodraeth a'r Senedd, ac mae'n rhan annatod o'r gwaith o ategu cryn dipyn o system ystadegol ehangach y llywodraeth. Dyma sut y gwêl y DU ei hun a sut y gall gynllunio ar gyfer ei dyfodol. Yn hanesyddol, yn y DU, mae cyfrif y boblogaeth wedi bod yn gyfystyr â'r cyfrifiad - holiadur a gaiff ei lenwi ar ddiwrnod penodol bob deng mlynedd - ond mae ffyrdd newydd o gyfrif y boblogaeth, gan gynnwys defnyddio ac ailddefnyddio data gweinyddol (a roddir i'r llywodraeth gan aelodau'r cyhoedd wrth iddynt ddefnyddio gwasanaethau cyhoeddus) wedi dod i'r amlwg. Gofynnodd Bwrdd yr Awdurdod i SYG ystyried rhinweddau perthynol moderneiddio'r cyfrifiad bob deng mlynedd (gan ei gynnal ar lein yn bennaf) a symud i gyfeiriad ystadegau blynyddol yn seiliedig ar ddata gweinyddol, a ategir gan arolygon o gartrefi.

Dros y tair blynedd diwethaf, mae SYG wedi cynnal gwaith ymchwil ac ymgynghori eang yn ymwneud â ffyrdd newydd o gyfrif y boblogaeth yn ogystal ag adolygu arferion mewn gwledydd eraill (Rhaglen Y Tu Hwnt i 2011). Yn arbennig, a chyda chydweithrediad y Gymdeithas Ystadegol Frenhinol (RSS), comisiynodd SYG adolygiad annibynnol o fethodoleg gan Chris Skinner, Athro Ystadegau yn Ysgol Economeg Llundain. Cafodd ei gyhoeddi ym mis Tachwedd 2013. Mae SYG wedi ymgysylltu ag ystod eang o ddefnyddwyr, sylwebwyr a chyrff cyhoeddus ledled Cymru a Lloegr ac mae wedi cynnal ymgynghoriad cyhoeddus mawr yn ddiweddar. Cyhoeddir yr adroddiad ar yr ymgynghoriad ar y cyd â'r argymhelliad hwn.

Mae'r papur hwn yn crynhoi prif ganfyddiadau Rhaglen Y Tu Hwnt i 2011 a rhydd fy argymhelliad i Fwrdd Awdurdod Ystadegau'r DU ar ddarparu ystadegau o'r boblogaeth yn y dyfodol a chynnal y cyfrifiad nesaf yng Nghymru a Lloegr. Mae'r Alban a Gogledd Iwerddon yn cynnal eu hadolygiadau eu hunain a byddwn yn gweithio gyda'r Gweinyddiaethau Datganoledig i barhau i ddarparu ystadegau o'r boblogaeth ledled y DU yn unol â gofynion yr Undeb Ewropeaidd a gofynion rhyngwladol ar gyfer cynnyrch ystadegol.

## 3 Parhad a newid

Cynhaliwyd cyfrifiad bob deng mlynedd ers 210 o flynyddoedd. Mae wedi bod yn ofynnol i bob cartref yng Nghymru a Lloegr, yn unol â'r gyfraith, ateb cyfres o gwestiynau am y cartref. O ganlyniad, cafwyd ffynhonnell wybodaeth gyson a chymaradwy heb ei hail ynglŷn â'r boblogaeth, nodweddion cartrefi, tai a galwedigaethau. Caiff y cyfrifiad ei werthfawrogi'n fawr iawn gan adrannau'r llywodraeth, awdurdodau lleol, cyrff cyhoeddus, busnesau, y sector gwirfoddol, ymchwilwyr academaidd, sylwebwyr ac unigolion. Yn achos achyddion a haneswyr, mae ymatebion cartrefi i'r cyfrifiad bob deng mlynedd yn ffynhonnell allweddol, a ryddheir ar ôl 100 mlynedd, i gefnogi ymchwil hanes teuluol neu gymdeithasol.

Mae ystadegau o'r boblogaeth a thai, yn enwedig ystadegau ar gyfer ardaloedd bach a grwpiau bach o'r boblogaeth, yn ategu'r broses o ddyrannu biliynau o bunnoedd o arian cyhoeddus bob blwyddyn yn genedlaethol ac yn lleol. Maent yn hanfodol i waith llunio polisi, gwneud penderfyniadau, ymchwil a monitro canlyniadau ar draws y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r sector gwirfoddol. Maent hefyd yn ategu dyraniad cymorth rhanbarthol Ewropeaidd ac yn galluogi'r DU i gyflawni rhwymedigaethau rhyngwladol. Mae bob amser angen cael ystadegau o'r boblogaeth a thai.

Mae'r cyfrifiad a gynhelir bob deng mlynedd, fel y dengys ymchwil ac ymgynghoriad cyhoeddus SYG, yn amhrisiadwy ac yn boblogaidd. Fodd bynnag, cipolwg a geir unwaith bob deng mlynedd ydyw, ac mae ei berthnasedd yn dirywio dros amser yn naturiol. Wrth i gymdeithas newid yn gyflym, fel sy'n digwydd ar hyn o bryd, mae hefyd alw am ddiweddariadau mwy mynych o'r manylion cyfoethog a ddarperir gan y cyfrifiad. Drwy ddefnyddio ac ailddefnyddio data gweinyddol a ategir gan arolygon o gartrefi, os y'i profir yn fethodolegol, y'i galluogir yn statudol ac y'i derbynnir gan y cyhoedd, cynigir y posibilrwydd deniadol o gael diweddariadau mwy mynych o ystadegau o'r boblogaeth. Ym marn yr Awdurdod a SYG, esgeulus fyddai peidio â bod wedi ystyried y dewis amgen posibl i'r cyfrifiad bob deng mlynedd.

## 4 Data gweinyddol

Mae defnyddio ac ailddefnyddio data gweinyddol y mae'r cyhoedd yn ei roi i'r llywodraeth wrth ddefnyddio gwasanaethau cyhoeddus (gyda mesurau diogelu addas ar waith i sicrhau cyfrinachedd a phreifatrwydd) yn cynnig y posibilrwydd o gynhyrchu ystadegau manwl o'r boblogaeth heb orfod gofyn i bob deiliad cartref lenwi ffurflen cyfrifiad fanwl. Ar ei orau, gallai hyn olygu gwell cywirdeb, amlder ac amseroldeb ystadegol am lai o arian. Unwaith y sefydlir system newydd o rannu data gweinyddol, gallai cost barhaus cael gafael ar ystadegau yn y fath fodd leihau.

Mae'r defnydd o ddata gweinyddol i gynhyrchu ystadegau o'r boblogaeth yn dod yn fwy cyffredin ledled y byd: mae'r Almaen, gwledydd Sgandinafaidd, yr Iseldiroedd, y Swistir, Awstria ac Israel bellach yn defnyddio systemau sy'n bennaf seiliedig ar ddata gweinyddol. Fodd bynnag, gall yr holl wledydd hyn gysylltu gwybodaeth am unigolion â chofrestr o'r boblogaeth; nid oes gan y DU gofrestr o'r fath. Mae gwledydd eraill, gan gynnwys UDA, Canada, Awstralia a Seland Newydd, yn parhau i ddibynnu ar gyfrifiad bob pump neu ddeng mlynedd, sy'n ddull dibynadwy. Mae'r dull cyntaf yn rhoi'r cyfrifoldeb ar y wladwriaeth neu gorff cyhoeddus i gasglu a dadansoddi'r ystadegau perthnasol o wybodaeth a gedwir eisoes am y cyhoedd. Mae'r ail yn dibynnu ar y cyhoedd i ateb cyfres o gwestiynau am y teulu a'r cartref, sydd wedyn yn cael eu dadansoddi gan yr awdurdodau ystadegol.

Mae SYG eisoes yn gwneud peth defnydd o rywfaint o ddata gweinyddol ar gyfer ystadegau o'r boblogaeth. Er enghraifft, defnyddiwyd nifer y bobl sy'n derbyn budd-dal plant mewn ardaloedd lleol i sicrhau ansawdd nifer y plant yng Nghyfrifiad 2011. Defnyddir y nifer flynyddol o enedigaethau a marwolaethau ym mhob awdurdod lleol a gwybodaeth o gofrestriadau meddygon teulu i gyflwyno amcangyfrifon o'r boblogaeth rhwng cyfrifiadau.

Mae ymchwil Rhaglen Y Tu Hwnt i 2011 i amcangyfrifon o'r boblogaeth sy'n deillio o ddata gweinyddol sydd eisoes ar gael i'r llywodraeth wedi datblygu i gyhoeddi canlyniadau sy'n dangos addewid cryf o ran cynhyrchu amcangyfrifon o'r boblogaeth yn y dyfodol. Fodd bynnag, dylid nodi na fyddai modd cynhyrchu ystadegau dibynadwy ar gyfer nodweddion y boblogaeth fel ethnigrwydd eto o ffynonellau data gweinyddol, felly byddai angen cynnal arolwg mawr o gartrefi er mwyn ategu'r canlyniadau.

Mae Awdurdod Ystadegau'r DU a SYG yn cydnabod y gallai gwell defnydd o ddata gweinyddol gynnig llawer o fanteision i'r DU o ran darparu ystadegau mwy mynych a manwl i ategu penderfyniadau lleol a chenedlaethol. Er enghraifft, petai'n dderbyniol i'r cyhoedd a'r Senedd, gellid cynhyrchu ystadegau manwl ar gyfer incwm a chyflogaeth gan ddefnyddio data o'r systemau treth a budd-daliadau. Ar ei orau, gallai hyn olygu ein bod ymhlith prif ddefnyddwyr arferion gorau yn ymwneud â defnyddio data gweinyddol a gesglir gan y llywodraeth.

## 5 Barn y cyhoedd, preifatrwydd a chyfrinachedd

Mae SYG eisoes yn gwneud defnydd cyfyngedig o'r data gweinyddol sydd ar gael iddi, a hoffai wneud mwy er mwyn gwella ansawdd ac amlder ystadegau rhwng cyfrifiadau bob deng mlynedd. Mae'r Awdurdod a SYG yn gwbl ymrwymedig i ddiogelu cyfrinachedd data personol a phreifatrwydd unigolion ac mae'n cydnabod bod yn rhaid i'r cyhoedd fod yn hyderus yn hyn o beth er mwyn datblygu'r defnydd a wneir o ddata gweinyddol. Mae *Deddf Ystadegau a Gwasanaeth Cofrestru 2007* yn ei gwneud hi'n drosedd datgelu gwybodaeth bersonol yn anghyfreithlon. Mae parchu gwybodaeth bersonol gyfrinachol yn un o hanfodion yr Awdurdod a SYG.

Fel rhan o Raglen Y Tu Hwnt i 2011, cynhaliodd SYG ymchwil i farn y cyhoedd am y dulliau gwahanol o ddarparu ystadegau o'r boblogaeth a'r defnydd o ddata gweinyddol. Mae hyn wedi cynnwys grwpiau ffocws, arolygon barn a chyfres o weithdai, a gynhaliwyd gan IPSOS MORI ac a gyd-gomisiynwyd gyda'r Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol.

Mae'r ymchwil hon wedi dangos y canlynol:

- ar y cyfan mae'r cyhoedd yn gadarnhaol ynghylch cynnal cyfrifiad bob deng mlynedd er mwyn casglu gwybodaeth am y boblogaeth;
- nid yw'r rhan fwyaf o'r cyhoedd yn gwrthwynebu rhannu data a gedwir gan adrannau eraill o'r llywodraeth â SYG*;*
- mae a wnelo gwrthwynebiadau â phryderon ynghylch diogelwch a phreifatrwydd ar y cyfan;
- mae'r rhan fwyaf o aelodau'r cyhoedd yn ymddiried yn SYG i ddiogelu cyfrinachedd eu data;
- pan dawelir eu meddyliau ynghylch diogelwch a phreifatrwydd, at ei gilydd mae'r cyhoedd yn gefnogol i SYG yn ailddefnyddio data gweinyddol er mwyn cynhyrchu ystadegau.

Mae'r Awdurdod hefyd yn cydnabod y bydd mwy o ddefnydd o ddata gweinyddol yn gofyn am rannu mwy o ddata personol rhwng adrannau'r llywodraeth a chyrff cyhoeddus a SYG, ac y bydd deddfwriaeth newydd i alluogi hyn i ddigwydd yn gofyn am ddealltwriaeth a chefnogaeth gyhoeddus barhaus er mwyn iddo fod yn dderbyniol. Bydd yr Awdurdod a SYG yn parhau i weithio'n agos gydag arbenigwyr diogelu data, cyfrinachedd a phreifatrwydd, a byddant yn cynnal asesiadau o'r effaith ar breifatrwydd fel sy'n briodol cyn gwneud penderfyniadau manwl ynghylch y cyfrifiad a'r defnydd pellach o ddata gweinyddol.

## 6 Yr ymgynghoriad cyhoeddus

Datblygodd Rhaglen Y Tu Hwnt i 2011 SYG ddau ddull eang o ddarparu ystadegau o'r boblogaeth yn y dyfodol:

- Fersiwn ar-lein yn bennaf o'r cyfrifiad traddodiadol a gynhelir bob deng mlynedd yn 2021 (gan gymryd gofal arbennig gyda'r rhai na allant neu na ddymunant lenwi'r ffurflen ar-lein efallai). Yn ôl yr arfer, byddai hyn yn gofyn am reoliadau Seneddol o dan ddarpariaethau *Deddf Cyfrifiad 1920*.
- Cyfrifiad blynyddol yn seiliedig ar goladu data gweinyddol wedi'i ddarparu gan unigolion i'r wladwriaeth ac wedi'i ategu gan arolygon blynyddol gorfodol o samplau cynrychioliadol o'r boblogaeth. Byddai hyn yn galw am ddeddfwriaeth sylfaenol i alluogi rhannu data o'r fath â SYG o wahanol adrannau'r llywodraeth a galluogi arolygon i fod yn orfodol.

Byddai'r ddau ddull yn darparu ystadegau ynghylch maint y boblogaeth, yn genedlaethol ac ar gyfer awdurdodau lleol. Byddai cyfrifiad sy'n defnyddio data gweinyddol ac arolygon cartrefi presennol yn darparu ystadegau mwy mynych ynghylch nodweddion y boblogaeth, tra byddai cyfrifiad ar-lein yn parhau i ddarparu ystadegau mwy manwl ar gyfer ardaloedd bach a phoblogaethau bach unwaith bob degawd.

Disgrifiodd yr ymgynghoriad gryfderau a gwendidau pob dull a gofynnodd i ddefnyddwyr roi eu barn. Cafodd yr ymgynghoriad cyhoeddus tri mis dros 700 o ymatebion gan y llywodraeth, awdurdodau lleol, cyrff cyhoeddus, sefydliadau masnachol, elusennau, academyddion ac achyddion. Cafwyd 444 gan ddinasyddion a defnyddwyr unigol a 271 gan sefydliadau a oedd yn cynrychioli defnyddwyr. Cyflwynwyd y mwyafrif llethol ar lein. Caiff yr adroddiad ar yr ymgynghoriad cyhoeddus ei gyhoeddi gyda'r argymhelliad hwn ac mae'n asesu amrywiaeth a phwysau barn. Rydym yn ddiolchgar i bawb a ymatebodd i'r ymgynghoriad.

Mae negeseuon allweddol yr ymgynghoriad fel a ganlyn:

- Caiff ystadegau o'r boblogaeth eu gwerthfawrogi'n fawr iawn gan amrywiaeth o ddefnyddwyr lleol a chenedlaethol ledled Cymru a Lloegr.
- Mae defnyddwyr o'r farn bod ystadegau ar gyfer ardaloedd daearyddol bach a phoblogaethau bach, sydd ond yn deillio o gyfrifiad llawn bob deng mlynedd ar hyn o bryd, yn hanfodol i brosesau gwneud penderfyniadau lleol, llunio polisïau a monitro amrywiaeth wrth gyflawni dyletswyddau cyhoeddus rhwymol gyfreithiol.
- Mae'r rhan fwyaf o ddefnyddwyr yn cydnabod gwerth gwneud gwell defnydd o ddata gweinyddol er mwyn cynhyrchu ystadegau mwy mynych o'r boblogaeth.
- Ceir pryder cyffredinol bod cyfrifiad bob deng mlynedd yn rhy bwysig i'w golli hyd nes bod mwy o sicrwydd ynghylch ansawdd data a allai gael ei ddarparu drwy gynyddu'r defnydd o ddata gweinyddol. Noda llawer o ymatebwyr fod gwledydd eraill wedi cymryd degawdau i ddatblygu systemau newydd, a dywedodd rhai mai 'difeddwl' fyddai symud yn rhy gyflym.
- Mae llawer o ddefnyddwyr unigol yn cydnabod prif fuddiant y cyfrifiad fel ffynhonnell hanesyddol ac maent yn awyddus i'r gyfres hanesyddol barhau.

Ni wnaeth yr ymgynghoriad rannu ymatebwyr yn garfannau gwahanol, er bod lleiafrif bach ond llafar, unigolion yn bennaf, nad oeddent am weld unrhyw newid i'r cyfrifiad papur traddodiadol bob deng mlynedd. Mae'r rhan helaeth o ymatebwyr yn gwerthfawrogi'r cyfrifiad a gynhelir bob deng mlynedd ac yn arbennig data ar ardaloedd bach a phoblogaethau bach sydd bob amser wedi bod wrth ei wraidd. Maent hefyd yn gweld buddiannau posibl defnyddio data gweinyddol i gynyddu amrywiaeth ac amlder ystadegau o'r boblogaeth. Nid oedd cefnogi un dull yn amlwg yn golygu na chefnogwyd y llall.

Office for National Statistics

## 7 Yr adolygiad annibynnol o fethodoleg (Adolygiad Skinner)

Er mwyn profi ei dull o asesu'r opsiynau ar gyfer y cyfrifiad nesaf a darparu ystadegau o'r boblogaeth yn y dyfodol, comisiynodd SYG adolygiad annibynnol o'r fethodoleg gan Chris Skinner, Athro Ystadegau yn Ysgol Economeg Llundain (LSE), Mike Murphy, Athro Demograffeg yn LSE a John Hollis, cyn Lywydd Cymdeithas Astudiaethau Poblogaeth Prydain ac ymgynghorydd demograffig. Cefnogwyd yr astudiaeth gan y Gymdeithas Ystadegol Frenhinol ac fe'i cyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2013.

Derbyniodd yr adolygiad benderfyniad SYG i ymgynghori ar ddau brif opsiwn:

- Cyfrifiad ar-lein a gynhelir bob deng mlynedd fel sy'n digwydd ar hyn o bryd ac a ategir gan y defnydd o ddata gweinyddol i roi cyfrif am newid yn y boblogaeth yn y cyfamser.
- Opsiwn data gweinyddol a fyddai'n canolbwyntio ar y defnydd cynyddol o ddata gweinyddol ar y cyhoedd sydd eisoes yn cael ei gadw gan y llywodraeth, a ategir gan arolwg blynyddol treigl 4 y cant er mwyn helpu i amcangyfrif nodweddion y boblogaeth.

Canmolodd yr adolygiad SYG am natur drylwyr Rhaglen Y Tu Hwnt i 2011 a nododd fod gan SYG ddealltwriaeth gref o'r heriau a'r risgiau methodoleg y mae'n eu hwynebu.

Nododd yr adolygiad y byddai'r cyfrifiad ar-lein yn esblygiad naturiol o'r cyfrifiad traddodiadol bob deng mlynedd ac y byddai'n adlewyrchu datblygiadau mewn rhai gwledydd eraill - er enghraifft Canada lle cwblhaodd 54 y cant y cyfrifiad ar lein yn 2011 (o gymharu ag 16 y cant yng Nghymru a Lloegr yn yr un flwyddyn). Ond pwysleisiodd y byddai'r opsiwn data gweinyddol yn gyfystyr â'r newid mwyaf sylweddol o ran cynhyrchu ystadegau mewn dros ganrif a hanner.

Darllenodd a dadansoddodd tîm yr adolygiad yr adroddiadau a'r cyhoeddiadau niferus a luniwyd gan Raglen Y Tu Hwnt i 2011 SYG. Hefyd, ymgysylltodd â defnyddwyr allweddol er mwyn sicrhau nad oedd unrhyw anghenion yn cael eu diystyried ac ymgynghorwyd ag arbenigwyr perthnasol ar faterion penodol.

Nododd Adolygiad Skinner lwyddiant yr opsiwn data gweinyddol wrth gynnal cyfrifiad mewn gwledydd eraill ond cysylltodd risg uwch iddo yn y DU ar hyn o bryd. Yn arbennig, nododd y problemau ynghylch amcangyfrif y boblogaeth mewn gwlad heb gofrestr o'r boblogaeth a'r risg ganlyniadol o oramcangyfrif y boblogaeth. Yn ymarferol, gallai hyn olygu na fyddai'r opsiwn data gweinyddol yn cynhyrchu amcangyfrifon dibynadwy o rai cyfrifiadau o'r boblogaeth. Er mwyn datblygu'r opsiwn data gweinyddol o ran darparu ystadegau o'r boblogaeth yn y dyfodol, cynigiodd Adolygiad Skinner ymchwil bellach gan SYG a'r gymuned ystadegol.

At hynny, dywedodd Adolygiad Skinner y dylid ei gwneud yn ofyniad allweddol bod deddfwriaeth rhannu data addas rhwng y swyddfa ystadegol a'r awdurdodau sy'n rheoli'r systemau gweinyddol fel y bydd y fath ddata yn diwallu anghenion ystadegol dros amser. Fel Ystadegydd Gwladol rwy'n cydnabod bod y ddeddfwriaeth hon, er yn ddymunol i ystadegau a'u defnydd, yn gofyn am ddealltwriaeth a chefnogaeth cyhoedd hyddysg, ynghyd â mesurau diogelwch priodol o ran preifatrwydd personol. Dylid nodi i'r adolygiad hefyd ei gwneud yn glir y byddai'r opsiwn data gweinyddol yn gofyn i'r arolwg blynyddol arfaethedig o 4 y cant o'r boblogaeth fod yn orfodol er mwyn diogelu rhag effaith andwyol diffyg ymateb ar yr ystadegau.

Daeth yr Athro Skinner a'i gydweithwyr i'r casgliad fod yr opsiwn cyfrifiad ar-lein yn gymharol risg isel ac y byddai'n esblygiad naturiol o'r cyfrifiad traddodiadol, gan ddefnyddio technoleg arloesol a

datblygiadau mewn arfer gorau ar gyfer cynnal cyfrifiad o bob cwr o'r byd. Tanlinellwyd pwysigrwydd parhau i gynnal cyfrifiad gorfodol a chynnal ymweliadau dilynol ag unrhyw gartrefi lle na chafwyd ffurflen ar-lein. Nid oedd Adolygiad Skinner yn petruso dweud bod cyfrifiad ar-lein yn sylfaen fethodolegol gadarn i ddisodli Cyfrifiad 2011; nid oedd yn barod i ddweud yr un peth am yr opsiwn data gweinyddol ar y cam datblygu presennol yng Nghymru a Lloegr.

Office for National Statistics

## 8 Argymhelliad

Mae'r Awdurdod yn atebol i Senedd y DU am gynhyrchu ystadegau o'r boblogaeth a chynnal cyfrifiad bob deng mlynedd yng Nghymru a Lloegr. Yn sgil deddfwriaeth ddiweddar (*Gorchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau 2006* a wnaed o dan *Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998*) rhoddwyd rôl ffurfiol yn y broses o gymeradwyo'r cyfrifiad bob deng mlynedd yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae Senedd yr Alban a Chynulliad Gogledd Iwerddon yn gyfrifol am eu cyfrifiadau eu hunain ac maent yn cynnal eu hadolygiadau eu hunain.

Paratowyd yr argymhelliad yma yn dilyn trafodaeth â Chofrestrwyr Cyffredinol yr Alban a Gogledd Iwerddon a Phrif Ystadegydd Cymru. Byddwn yn parhau i weithio gyda'r Gweinyddiaethau Datganoledig er mwyn sicrhau cysondeb a chymharedd ystadegau o'r boblogaeth ar draws y gyfres hanesyddol o gyfrifiadau ac ar draws gwledydd y DU.

Fy argymhelliad i'r Bwrdd yw y dylai Awdurdod Ystadegau'r DU wneud y defnydd gorau o bob ffynhonnell, gan gyfuno data o gyfrifiad ar-lein yn 2021 *a* data gweinyddol ac arolygon. Byddai hyn yn cynnwys:

- Cyfrifiad ar-lein ar gyfer pob cartref a sefydliad cymunedol yng Nghymru a Lloegr yn 2021 fel olynydd modern i'r cyfrifiad papur traddodiadol bob deng mlynedd. Fel yn 2011, mae SYG yn cydnabod y byddai angen cymryd gofal arbennig i gefnogi'r rhai na allant lenwi'r cyfrifiad ar lein.
- Mwy o ddefnydd o ddata gweinyddol ac arolygon er mwyn gwella'r ystadegau o Gyfrifiad 2021 a gwella ystadegau rhwng cyfrifiadau.

Byddai dull o'r fath yn darparu ystadegau o'r boblogaeth sydd eu hangen ar y DU am y degawd nesaf ac yn sbarduno mwy o ddefnydd o ddata gweinyddol ac arolygon blynyddol. Gallai hyn gynnig y posibilrwydd i Lywodraeth a Senedd yn y dyfodol roi'r gorau i gyfrifiad traddodiadol bob deng mlynedd a dechrau cynhyrchu ystadegau o'r boblogaeth bob blwyddyn drwy ddefnyddio data gweinyddol ac arolygon o'r boblogaeth. Bydd angen gwneud rhagor o ymchwil dros y misoedd a'r blynyddoedd i ddod er mwyn pennu'r cyfuniad mwyaf priodol o ddulliau a ffynonellau data.

Fodd bynnag, mae'n amlwg bod datblygu'r defnydd o ddata gweinyddol yn y dyfodol yn dibynnu ar gydsyniad y cyhoedd fel y'i mynegir drwy'r Senedd. Cydnabyddwn y byddai angen deddfwriaeth rhannu data er mwyn sicrhau'r buddiannau mwyaf o ddefnyddio data gweinyddol at ddibenion ystadegol.

**Jil Matheson**
**Ystadegydd Gwladol a Phrif Weithredwr Awdurdod Ystadegau'r DU**